**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

## ADRODDIAD GWEINIDOG Y CYNULLIAD I'R PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES AR 14 CHWEFROR 2001

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y materion penodol yr oedd yn dymuno cael ei hysbysu amdanynt ers fy adroddiad blaenorol ar 17 Ionawr. Mae **Atodiad E** yn nodi fy mhrif gyfarfodydd a gweithgareddau ers yr adroddiad diwethaf.

1. **DYRANIAD REFENIW LLYWODRAETH LEOL 2001-02: Y GOBLYGIADAU POTENSIAL AR GYFER CYLLIDEBAU ADDYSG**

Mae'r dyraniad Refeniw Llywodraeth Leol yn golygu y gall awdurdodau lleol gynyddu eu gwariant cyffredinol 5.9%, wedi ei seilio ar dybiaethau'r Cynulliad ar lefelau treth y cyngor.

Petai'r gwariant ar addysg yn cynyddu yn unol â'r cynnydd cyffredinol byddai hyn yn golygu £80m ychwanegol ar gyfer addysg yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae'r Cynulliad wedi cydnabod bod beichiau newydd penodol ar addysg ac felly cynhwyswyd symiau ar gyfer trefniadau trothwy cyflogau athrawon (£12.845m) ac ymddeoliad cynnar penaethiaid (£2.05m) yn y dyraniad refeniw. Hefyd mae £7.923m ychwanegol o ganlyniad i drosglwyddiad rhannol y cymhorthdal ariannu Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod i'r dyfarniad refeniw.

Yr awdurdodau lleol sy'n penderfynu faint maent yn ei wario ar addysg a'r holl wasanaethau eraill. Petai'r awdurdodau yn dewis rhoi cynnydd o 5.9% i addysg ac yn defnyddio'r darpariaethau ar gyfer y beichiau ychwanegol byddai cyfanswm y cynnydd mewn gwariant ar addysg yn £103m.

Ers cyhoeddi'r dyraniad refeniw cyhoeddwyd adroddiad y Corff Adolygu Athrawon ar gyflogau athrawon ar gyfer 2001. Mae'r argymhellion cyflog yn uwch na'r hyn y caniatawyd ar eu cyfer yn y dyraniad. Ar Chwefror 2 cyhoeddodd Edwina Hart y byddai £6m ychwanegol yn ar gael i awdurdodau lleol er mwyn iddynt gyflenwi'r gwelliannau i wasanaethau ysgol a ragwelwyd yn y dyraniad refeniw, oherwydd eu bod yn sylweddoli'r pwysau y byddai'r codiadau cyflog yn ei roi ar awdurdodau lleol o ran ysgolion a darparu gwasanaeth yn 2001-02.

Amgaeaf lythyr (Atodiad A) a anfonwyd at yr holl Awdurdodau Addysg Lleol gan yr

Is-adran Rheolaeth Ysgolion ar 30 Ionawr sy'n disgrifio'r sefyllfa yn fanylach. Mae hwn yn ei

gwneud yn eglur, wrth benderfynu ar lefel y gyllideb addysg ar gyfer 2001-02, ei bod yn angenrheidiol i bob awdurdod edrych yn ofalus iawn ar anghenion y gwasanaeth addysg a'i ysgolion.

Dadansoddir penderfyniadau cyllideb pob awdurdod gan ddefnyddio'r ffurflenni Cyfrif Refeniw a'r ffurflenni cyllideb adran 52 y mae'n rhaid eu dychwelyd i'r Cynulliad. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor yn yr haf. Caiff telerau a chynnwys yr adroddiad ei drafod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**2. CBAC**

Fel y nodais wrth yr Aelodau yn y drafodaeth fis Tachwedd diwethaf, roedd CBAC ar fin gwneud newidiadau i'w tîm rheoli. Bellach mae CBAC wedi ethol Cadeirydd newydd, y Cynghorydd Jeff Jones, a chyhoeddwyd hysbyseb am swydd y Prif Weithredwr y mis diwethaf. Mae trefniadau i mi gwrdd â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, unwaith y caiff ef/hi ei b/phenodi, mewn llaw eisoes. Fel y dywedais yn y drafodaeth ym mis Tachwedd, byddaf yn tynnu sylw'r Cynulliad at wybodaeth briodol, ar ffurf datganiad gerbron sesiwn lawn, yn dilyn archwiliad arfaethedig CBAC a fy nghyfarfod â swyddogion CBAC.

**3. DATBLYGU'R CWRICWLWM AR LEFEL UWCHRADD**

Gwnaeth yr adolygiad cwricwlwm diweddar, a ystyriwyd yn fanwl gan y Pwyllgor Addysg Cyn-16 yn 1999, ddatblygu a diwygio'r cwricwlwm ar bob lefel. Cafodd y newidiadau i'r Rhagleni Astudio Cyfnod Allweddol 3 eu gweithredu yn yr ysgolion ym mis Medi 2000.

Mae cyflwyno'r Rhaglenni Astudio Cyfnod Allweddol 4 wedi ei wneud yn raddol er mwyn sicrhau bod amser digonol i newid meysydd llafur TGAU i adlewyrchu'r gofynion newydd. Felly, bydd y Rhaglen Astudio ar gyfer yr holl bynciau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cael eu gweithredu mewn ysgolion ym mis Medi 2001, gyda'r meini prawf TGAU diwygiedig ar gyfer Saesneg, Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith yn dilyn ym mis Medi 2002 ar ôl yr ymgynghoriad diweddar ynglyn â'r pynciau hyn. Cafodd y meini prawf diwygiedig ar gyfer y pynciau TGAU eraill eu datblygu a chytunwyd arnynt yn y ffordd arferol gan y cyrff rheoleiddio – ACCAC, QCA yn Lloegr a CCEA yng Ngogledd Iwerddon.

Yn ychwanegol at y newidiadau hyn i feini prawf TGAU, bu ACCAC yn ymgynghori'n ddiweddar ar y materion allweddol a'r goblygiadau yn ymwneud â datblygu TGAU Galwedigaethol i ddisodli GNVQ ar y lefelau Sylfaen a Chanolradd. Ysgrifennodd Cadeirydd ACCAC ataf yn ddiweddar yn rhoi manylion am argymhellion yr Awdurdod yn sgil canlyniadau'r ymgynghoriad. Byddaf yn gwneud fy mhenderfyniadau, wedi eu seilio ar gyngor ACCAC, maes o law.

**4. Y FAGLORIAETH GYMREIG**

Mae’r trefniadau ar gyfer y prosiect peilot yn mynd rhagddynt fel a gynlluniwyd. Mae’r fanyleb ar gyfer y prif gontract datblygu a rheoli ar fin cael ei roi ar ei ffurf derfynol a bydd y gwahoddiadau i dendro yn cael eu cyhoeddi yn fuan. Byddaf yn ysgrifennu at y Cadeirydd, gyda chopïau i’r Aelodau, i roi rhagor o wybodaeth yn fuan.

**5. CYNNYDD GYDAG ADOLYGIAD ARFAETHEDIG Y CÔD YMARFER ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (AAA) YNG NGHYMRU A’R NEWIDIADAU I’R RHEOLIADAU AAA CYSYLLTIEDIG**

Bu’r cyn Bwyllgor Addysg Cyn-16, Ysgolion a Dysgu Cynnar yn ystyried y Côd Ymarfer AAA diwygiedig yng Nghymru ar ei ffurf drafft fel rhan o’r ymgynghoriad ehangach ar y Côd a’r newidiadau cysylltiedig i’r Rheoliadau AAA sy’n digwydd ledled Cymru. Cafodd nodau cyffredinol y diwygiad drafft a’r newidiadau i’r statud eu croesawu.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ddiwedd Tachwedd ac roeddwn yn falch y derbyniwyd bron i 200 o sylwadau gan y rhai â diddordeb yng Nghymru, yn cynnwys rhieni a grwpiau AAA gwirfoddol. Mae’r sylwadau yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd a byddant yn cael eu hystyried wrth baratoi drafft terfynol y Côd AAA ar gyfer Cymru y bydd yn ofynnol ei roi gerbron y Cynulliad i’w gymeradwyo ynghyd â’r newidiadau i’r Rheoliadau AAA a fydd yn sail i’r newidiadau.

Roedd y prif bryder a ddaeth yn amlwg o’r broses ymynghori yn ymwneud â’r cynnig i ddiwygio’r Rheoliadau AAA mewn perthynas â datganiadau AAA i ddisodli’r dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i ‘nodi’ darpariaeth mewn datganiadau gyda dyletswydd i ‘amlinellu’ y ddarpariaeth. Teimlai llawer o’r rhai a ymatebodd y byddai hyn yn cael gwared o fesurau pwysig i ddiogelu plant ag AAA a’u rhieni a fyddai’n arwain at sicrhau darpariaeth llai effeithiol. Hysbysais Weinidogion yr Adran Addysg a Chyflogaeth (DfEE) ar fyrder fy mod yn bwriadu hepgor y cynigion penodol hyn. Roeddwn yn falch fod y DfEE wedi penderfynu gwneud yr un modd. Bydd y swyddogion yn hysbysu pawb a ymatebodd ynghylch fy mhenderfyniad yn fuan.

O ran amseriad cyflwyno’r Côd AAA diwygiedig yng Nghymru nid wyf mewn sefyllfa ar hyn o bryd i benderfynu ar ddyddiad penodol. Mae’r Côd yn ddibynnol ar newidiadau i’r ddeddfwriaeth AAA sylfaenol yn deillio o Fesur AAA ac Anabledd y Llywodraeth sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd. Ni all y Côd drafft terfynol a’r Rheoliadau diwygiedig ddod gerbron y Cynulliad nes bo’r Mesur yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Wedi hynny hoffwn ystyried faint o amser a fyddai’n addas rhwng cyhoeddi’r Côd Ymarfer diwygiedig a’r dyddiad y bydd yn dod i rym yn statudol, er mwyn rhoi peth amser i ysgolion ac asiantaethau statudol i ddod yn gyfarwydd â’r prif newidiadau cyn eu bod yn rhwym wrth statud i’w gweithredu.

Ar fater perthynol, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth yn gofyn iddo gytuno i’r Llywodraeth noddi diwygiad i’r Mesur AAA ac Anabledd sydd gerbron y

Senedd ar hyn o bryd fel y byddai'n darparu ar gyfer sefydlu Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru. Tra bo'r Tribiwnlys AAA presennol yn cwmpasu Cymru a Lloegr, nid oes ganddo unrhyw bresenoldeb gweledol yma, sy'n gallu arwain at y rhai sy'n apelio deimlo eu bod yn arunig. Hefyd teimlaf y byddai sefydlu Tribiwnlys yng Nghymru yn fwy cyson â'n hinsawdd gwleidyddol newydd.

## 6. CAEL GWARED AR LEOEDD YSGOL DROS BEN

Rydym i fod i ystyried adroddiad y Pwyllgor ar gyflenwad lleoedd ysgol yn y dyfodol agos. Erbyn dechrau Ebrill dylai adroddiad yr Archwiliad Dosbarth fod i law hefyd, a fydd yn edrych ar sut mae detholiad o awdurdodau yn ymdrin â chael gwared ar leoedd dros ben. (Mae'n bosibl y bydd aelodau'r Pwyllgor yn cofio y cyfeiriwyd at y gwaith yma pan gyflwynodd yr Archwiliad Dosbarth ei dystiolaeth i ni.) Tybiaf y bydd argymhellion yn deillio o'r adroddiadau hyn - efallai i'r Cynulliad roi rhagor o arweiniad i Awdurdodau Addysg Lleol, neu o ran y camau gweithredu y gallwn eu cymryd i gefnogi awdurdodau sy'n ymdrin â'r problemau o gydbwyso'r cyflenwad a'r galw am leoedd. Nid wyf yn dymuno rhagflaenu'r argymhellion hynny. Yn y cyfamser mae'r awdurdodau lleol yn parhau i fod yn rhwym i'w cyfrifoldebau o dan Ddeddf Fframwaith a Safonau Ysgol 1998 i gyhoeddu cynlluniau trefniadaeth ysgolion a gwneud cynigion ar gyfer sefydlu, addasu neu gau ysgolion fel bo'n briodol. Lle bo gwrthwynebiadau i gynigion o'r fath byddaf yn parhau i weithredu cyfrifoldeb statudol y Cynulliad i benderfynu ar gynigion o'r fath, o fewn fframwaith y polisi presennol. Caiff pob cynnig ei ystyried yn ôl ei rinweddau unigol.

## 7. YSGOL BRO MYRDDIN

Rydym wedi cynghori AALl Sir Gaerfyrddin y bydd cynigion statudol yn ofynnol os ydynt yn bwriadu bwrw ymlaen ag addysgu'r holl bynciau perthnasol yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg o fis Medi 2002.

Mae'r rhieni'n parhau'n anhapus a rhoi'r gorau'n raddol i addysgu Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Saesneg yn yr ysgol.

Yn ddiweddar penderfynodd Llywodraethwyr Bro Myrddin sefydlu panel i ymchwilio i'r gwahanol safbwyntiau yn yr ysgol ac esbonio i'r rhieni pam eu bod yn dymuno newid iaith yr addysgu yn yr ysgol o fis Medi 2002. Yna byddant yn adolygu eu polisi iaith yn dilyn cyflawni'r gwaith hwn, a phenderfynu a ydynt yn dymuno bwrw ymlaen â chynnig statudol i wneud y newid.

## 8. CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

Yn dilyn fy adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor ar 17 Ionawr cytunais i edrych ar y sefyllfa gyfreithiol o ran cyllido Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Nawr gallaf adrodd nad oes unrhyw rwystr

statudol i'r Cynulliad barhau i gyllido'r Cyngor. Nodir y pwerau i sefydlu a chyllido'r Cyngor yn Neddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Trosglwyddwyd y rhain i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Trosglwyddo Swyddogaethau 1999 ac fe'u dirprwywyd i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae'r Ddeddf yn datgan y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud grantiau i'r Cyngor, gan benderfynu ar y cyfanswm a'r amodau a'r telerau (Atodlen 1, para 8).

Wedi dweud hyn, y bwriad erioed, fel y nodir yn yr holl bapurau ymgynghori ar y Cyngor, yw y bydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn dod yn gorff sy'n ariannu ei hun, gan gynhyrchu ei incwm ei hun o'r ffioedd cofrestru. Credaf, tra ei bo'n iawn i'r Cynulliad dalu costau sefydlu'r Cyngor, os yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i fod yn annibynnol, ac er mwyn i'r proffesiwn deimlo bod y Cyngor y siarad ar ei rhan, ni ddylai gael ei gyllido'n barhaol gan y Cynulliad ac, fel y gwyddoch, nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer cyllido'r Cyngor y tu hwnt i'r ddarpariaeth rhan o'r flwyddyn ar gyfer 2001-02.

## 9. CYFLOG ATHRAWON

- Cyhoeddwyd Adroddiad Corff Adolygu Athrawon Ysgol 2001 gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth ar 2 Chwefror. Mae'r adroddiad yn argymell cynnydd cyflog o 3.7% i athrawon; mwy i raddedigion cyntaf sy'n dechrau addysgu – byddant yn cael cyflog dechreuol o £17,000.
- Mae'r prif argymhellion yn cael eu derbyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth yn llawn, yn ddarostyngedig i'r broses ymgynghori statudol.
- Nid yw cyflogau ac amodau gwaith athrawon yn fater wedi'i ddatganoli. Nid oes gan y Cynulliad bwerau i bennu cyflogau athrawon.
- Rwy'n croesawu'r newyddion y bydd athrawon presennol ac athrawon newydd yng Nghymru yn derbyn codiad cyflog uwch na'r gyfradd chwyddiant. Yn benodol, bydd y cynnydd o 5.9% yng nghyflog athrawon newydd a chynnydd yn y lwfansau recriwtio a chadw yn gymorth i ddenu mwy o athrawon i'r proffesiwn.
- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn sylweddoli y byddai'r dyfarniad hwn yn rhoi pwysau ar awdurdodau wrth gyflenwi gwelliannau i ysgolion a'r ddarpariaeth gwasanaeth yn 2001-02. Mae wedi sicrhau bod £6 miliwn ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol i ddarparu cefnogaeth ychwanegol er mwyn cyflawni'r gwelliannau hyn yn 2001-02. Caiff yr arian ei ddosbarthu drwy Grant Arbennig.
- Nodir manylion am argymhellion y Corff Adolygu Athrawon Ysgol yn Atodiad B. Nawr bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar fwrw ymlaen â'r argymhellion hyn.
- Dosberthir copïau o'r adroddiad llawn i'r aelodau gynted ag y byddant ar gael.

## 10. CYNGOR CENEDLAETHOL CYMRU DROS ADDYSG A HYFFORDDIANT - ELWa

Ar 8 Chwefror 2001 gwnes ddau gyhoeddiad pwysig. Yn gyntaf, enwi'r deg aelod newydd ar y Cyngor a hefyd enw talfyredig newydd y Cyngor – ELWa. Bydd ELWa yn enw hawdd i'w adnabod a bydd yn rhoi hunaniaeth amlycach i'r corff. Mae'r enw hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i bwysigrwydd y corff newydd wrth annog pawb yng Nghymru i elwa ohono.

ELWa yw'r mwyaf o'r Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad gyda chyllideb o tua £370m ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac rwy'n ystyried y penodiadau hyn ymhlith y rhai pwysicaf erioed yng Nghymru. Mae'r ymgeiswyr a ddewiswyd, yn unol â Chôd Ymarfer Penodiadau Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, oll o'r radd flaenaf ac yn dod ag amrediad eang o sgiliau a phrofiad er mwyn bwrw ymlaen â gwaith ELWa er mwyn sicrhau moderneiddio cynhwysfawr ym maes addysg a hyfforddiant ôl-16, er budd yr holl ddysgwyr yng Nghymru.

**11. GRADDAU SYLFAEN**

Rwyf wedi dosbarthu'r cyngor a dderbyniais gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch sut y gellid modelu a sefydlu'r Radd Sylfaen yng Nghymru i'r Pwyllgor. Rwyf hefyd wedi dweud wrth y Cyngor Cyllido y cytunaf y dylai fwrw ymlaen yn awr i gyflwyno'r cymhwyster yng Nghymru ar gyfer 2001/02 heb gyfnod peilot yng Nghymru. Rwyf wedi ysgogi'r gweithredu hyn yn awr oherwydd fy mod yn derbyn y cyngor gan y Cyngor Cyllido bod rhaid dechrau ar y gwaith cynllunio os yw'r cyrsiau Gradd Sylfaen i ddechrau yng Nghymru yn 2001/02.

Dim ond yn ddiweddar y mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu ei gyllidebau ar gyfer grantiau i addysg uwch. Ar yr adeg hon, nid wyf yn bwriadu cynyddu grant y Cyngor. Ond os y daw'n amlwg bod diddordeb sylweddol mewn datblygu'r cymhwyster newydd hwn yng Nghymru ac na ellir cwrdd â'r costau datblygu o grant 2001-02 y Cyngor, fe wnaf edrych yn ystod y flwyddyn a oes modd canfod adnoddau ychwanegol o ran arall y ddarpariaeth y mae'r Cynulliad wedi ei glustnodi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant. Os oes angen, byddaf yn gofyn am gymeradwyaeth y Gweinidog dros Gyllid ac yn ymgynghori â'r Pwyllgor.

**12. GRWP YMCHWILIO I GYLLIDO A CHALEDI MYFYRWYR – YR AMSERLEN AR 30/01/01**

Mae gwaith y Grwp a sefydlais yn mynd rhagddo yn dda iawn. Sefydlwyd rhaglen waith ar seiliau cadarn. Bydd y Grwp yn casglu tystiolaeth mewn gwrandawiadau yn Llangefni a Wrecsam ym mis Chwefror, ac yng Nghaerfyrddin, Llandrindod, Caerdydd a Merthyr Tudful ym mis Mawrth. Ar ôl profiad chwe wythnos o weithio ar y prosiect mae'r Grwp wedi gofyn i mi am estyniad i'r amser a ganiatawyd ar gyfer cyflawni'r dasg. Trefnwyd cyfarfodydd cyhoeddus hyd at wythnos gyntaf mis Ebrill. Ni fydd y Grwp mewn sefyllfa i ystyried y dystiolaeth a gasglwyd, cyrraedd casgliadau a llunio ei adroddiad nes bo'r holl gyfarfodydd cyhoeddus wedi eu cynnal. Dywedodd y Cadeirydd bod y Grwp yn gwneud cynnydd da wrth ymdrin â'r cylch gwaith uchelgeisiol ond bellach mae'n credu nad yw dyddiad gwreiddiol gorffen y gorchwyl, y Pasg, yn caniatáu digon o amser. Cred y Grwp ei bod yn bwysig ymdrin â'r holl sectorau yn y cylch gwaith. O ystyried hynny a barn y grwp am anghenion y broses ymgynghori a chymhlethdod

ymdrin ag anghenion dysgwyr yn yr holl wahanol sectorau, rwyf wedi cytuno y dylid cyflwyno'r adroddiad i mi mewn pryd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor hwn ar 23 Mai. Amgaeaf gopi o amserlen y Pwyllgor (Atodiad C).

**13. STRATEGAETH GYFLOGAETH**

Mae'r amserlen ar gyfer hyn yn gysylltiedig â phroses ymgynghori a pharatoi y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Cyhoeddwyd papur ymgynghorol yn ddiweddar a byddwn yn llunio'r Strategaeth Gyflogaeth wedi ystyried yr ymatebion i hwnnw, ac yn ystyried adroddiad Tasglu Sgiliau Cymru hefyd.

14. **YSTADEGAU'R FARGEN NEWYDD**

Amgaeir yr ystadegau diweddaraf ynghylch y Fargen Newydd i bobl ifanc 18-24 oed yng Nghymru (hyd at diwedd Hydref 2000) yn Atodiad D.